

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Fframwaith Strategol a Chynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol ar gyfer Cymru (2016-2021)	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Stephen Thomas
Dyddiad:	1 Mawrth 2016
Arweinydd polisi:	Andrew Jacobs
Manylion cyswllt:	0300 0628296

Math o Raglen/Prosiect

☒ Polisi	☐ Prosiect neu raglen
☐ Deddfwriaeth	
☐ Grant	☐ Ymchwil, gwerthusiad
☐ Newid busnes	
☐ Seilwaith	☐ Gwasanaethau
☐ Adeiladu, Cyfalaf	
☐ TGCh	☐ Contractau, tendrau
☐ Arall (Nodwch isod)	

Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?
 Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn
☒	☐	☐	☐	☐

O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?
SYLWER: Nodwyd fod cost oes gyfan y polisi hwn o dan £35k. Roedd y Fframwaith gwreiddiol yn datgan nad oedd yn ymwneud â darparu cyllid newydd, a bod adnoddau sylweddol eisoes ar gael. Bydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys llinell debyg a fydd yn cyfeirio at ffrydiau ariannu presennol ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru gan gynnwys y rhai a oruchwylir gan yr Uned Cynhwysiant Digidol ac Uned y Gymraeg. Mae'r canlyniadau'n ddibynnol ar gydgyssylltu gweithgareddau a gweithio mewn partneriaeth ar draws y Trydydd Sector, y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
☐	☐	☒	☐	☐	☐
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
Mae'r Fframwaith Strategol Cynhwysiant Digidol diwygiedig (2016-2020) yn pennu cerrig milltir allweddol ar gyfer gostwng lefelau allgáu digidol ar gyfer Oedolion (18+) yng Nghymru yn 2017 a nod yn 2020 lle mae pawb sy'n dymuno bod ar-lein yn gallu mynd ar-lein, gwneud mwy ar-lein ac elwa o fanteision bod ar-lein. Bydd targed 2017 a nod 2020 yn cael eu gosod mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth allweddol e.e. pobl hŷn, y rhai mewn tai cymdeithasol, pobl ddi-waith/ar incwm isel a phobl anabl. Bydd cyflawniadau'n ddibynol ar gydgyssylltu gwaith cyflawni a gweithgareddau trwy sefydliadau'r Trydydd Sector, y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat.					
CAM 1: CYNLLUNIO					
Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?					
Mae'r Fframwaith Strategol Cynhwysiant Digidol diwygiedig yn atgyfnerthu pwysigrwydd mynd i'r afael ag allgáu digidol ar adeg pan fo mwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, yn mynd ar-lein. Bydd y ddogfen newydd yn pennu ymrwymiad am 5 mlynedd arall, yn rhoi diweddariad ar weithgareddau a gyflawnwyd a chynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag allgáu digidol ers 2010, ac yn symleiddio'r negeseuon allweddol sydd wedi'u cynnwys dros ddwy ddogfen ar hyn o bryd. Bydd yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd ym maes cynhwysiant digidol dros y pum mlynedd ddiwethaf yn ogystal â diweddarau cyd-destun y gwaith sydd wedi esblygu yn unol â datblygiadau technolegol sylweddol ers 2010. Bydd llwyddiant yn golygu gostwng lefelau allgáu digidol o'r ffigwr o 19% ar hyn o bryd i bwynt yn 2020 lle mae pawb sy'n dymuno bod ar-lein yn gallu mynd ar-lein, gwneud mwy ar-lein ac elwa o fanteision bod ar-lein. Bydd targedau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2017 yn aros, yn seiliedig ar ganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant.					
Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?					
a					
Beth fydd yr effeithiau os <i>na</i> fydd y polisi'n cael ei weithredu?					
Mae nifer o ddewisiadau wedi'u hystyried. Roedd dewis i 'wneud dim byd' yn ystyriaeth ddilys er bod y Fframwaith gwreiddiol (Rhag 2010) yn seiliedig ar ffrâm amser o bum mlynedd. Fe ddiwygiwyd y Cynllun Cyflawni'n sylweddol yn 2014, a chafodd hwn ei ddiweddarau yn haf 2015, felly mae dadl i awgrymu na fydd diwygio'r Fframwaith a'r Cynllun Cyflawni a'u cyfuno mewn un ddogfen yn ychwanegu gwerth sylweddol. Fodd bynnag, y dewis a ffafrir yw diweddarau'r Fframwaith Strategol gwreiddiol ar gyfer Cymru a'i gyfuno â'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol diwygiedig i atgyfnerthu pwysigrwydd yr agenda hynod drawsbynciol hon, a gwella'r modd y cydgysylltir y gweithgareddau digidol					

niferus sy'n mynd rhagddynt ar wahân, ar adeg pan fo gwasanaethau'n gynyddol yn mynd ar-lein a phan fo'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrdd dan anfantais sylweddol.

Os na chaiff y polisi ei weithredu, mae'n debygol y bydd gweithgareddau digidol llai cydgysylltiedig yn digwydd, a allai arwain at fwy o fwch digidol rhwng y defnyddwyr gweithredol sy'n gallu manteisio'n fwyfwy ar dechnolegau sy'n gwella drwy'r amser, a'r rhai sy'n dal i'w chael yn anodd goresgyn y rhwystrau i fynd ar-lein. Mae'r bobl hyn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn perygl o gael eu gadael ar ôl mewn cymdeithas, wrth i fwy a mwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fynd ar-lein.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Bydd y Fframwaith Strategol diwygiedig yn cefnogi nodau Iaith Fyw: Iaith Byw i alluogi siaradwyr Cymraeg i gyfranogi'n llawn fel dinasyddion digidol a dangos i bawb bod y Gymraeg yn gyfrwng creadigol, grymus, ymaddasol a modern.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Bydd cynyddu cynhwysiant digidol ymhlith dinasyddion Cymraeg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at nodau penodol yn Iaith Fyw: Iaith Byw, sef:

- rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgil defnyddiol mewn bywyd modern
- sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau
- lle amlwg i'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol.

Bydd egluro pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg mewn byd digidol modern, trwy'r ddogfen hon, yn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid sydd o bosibl heb ymgysylltu rhyw lawer â chymunedau Cymraeg a heb fynd ati'n weithredol i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg gymaint ag y gallent yn flaenorol. Bydd y Polisi yn cynnwys camau gweithredu penodol i hybu gweithgareddau cynhwysiant digidol trwy'r Gymraeg, a bydd swyddogion yr Uned Cynhwysiant Digidol yn parhau i gydweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Uned y Gymraeg i gytuno ar y camau gweithredu hyn.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r rhanddeiliaid yn sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a all helpu i annog a chynorthwyo dinasyddion a sefydliadau i fynd ar-lein a gwneud mwy ar-lein. Mae'r polisi'n canolbwyntio ar y grwpiau hynny o oedolion sydd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol gan gynnwys pobl hŷn ac anabl, pobl sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar a phobl ar incwm is, sy'n cynnwys tenantiaid tai cymdeithasol. Mae'r polisi'n ymwneud ag ennyn ymgysylltiad sefydliadau ac unigolion a all helpu'r rhai nad ydynt yn defnyddio technoleg ar hyn o bryd, ni waeth beth fo'u hiaith, er mwyn iddynt allu cael budd

o'r cyfleoedd helaeth a gynigir gan dechnolegau digidol.
Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)
Amh.
Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?
Cysylltwyd ag Uned y Gymraeg ac maent hwy wedi awgrymu trafodaethau gyda phartneriaid posibl sy'n arbenigo mewn gweithgareddau Cymraeg megis Merched y Wawr; manylion trafodaethau am weithdai gyda'r Canolfannau Cymraeg newydd yng Nghaerfyrddin (Atom) a Llanelli (Y Lle). Hefyd, bydd amcangyfrifon yn cael eu gwneud o sesiynau cynhwysiant digidol tebygol i'w cynnal yn Gymraeg gan ein rhaglen a rhanddeiliaid eraill; a.y.b. Byddwn yn gweithio gydag Uned y Gymraeg i gynnwys eu partneriaethau presennol ac amlygu unrhyw gyfleoedd a allai arwain at fwy o weithgareddau Cymraeg.
CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU
<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u> Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.
Effeithiau cadarnhaol: Gostwng lefelau allgáu digidol ymhlith oedolion (18+) ledled Cymru ni waeth beth fo'u hiaith. Bydd mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy sianeli digidol yn golygu bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill.
Effeithiau negyddol: Amh. – efallai y byddai rhai'n dadlau y bydd mwy o gynhwysiant digidol yn golygu bod mwy o wasanaethau traddodiadol yn cau mewn cymunedau Cymraeg gwledig, ond bydd hyn yn digwydd beth bynnag, ni waeth pa un a fyddwn yn annog mwy o bobl i fynd ar-lein ai peidio. I'r rhai sy'n dal i beidio â bod ar-lein, byddant yn dod yn fwy difreintiedig byth, ond ni fyddai hynny o ganlyniad i'r polisi hwn.
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?
Bydd y Fframwaith yn hybu defnydd o'r Gymraeg trwy sianeli digidol ac yn amlygu rhai o'r prosiectau digidol Cymraeg pwrfasol sy'n digwydd, gyda chyfraniadau'n cael eu gwneud gan Uned y Gymraeg. Mae Cymunedau Digidol Cymru, rhaglen cynhwysiant digidol bwrpasol Llywodraeth Cymru, yn cydgysylltu gweithgareddau a phartneriaethau ledled Cymru i ddarparu hyfforddiant digidol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn ddwyieithog ac mae partneriaethau gyda sefydliadau Cymraeg yn bodoli lle gofynnir am ddarpariaeth yn Gymraeg.
Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Bydd swyddogion yn parhau i ddefnyddio data ynghylch defnydd o'r rhyngwrwyd a gyhoeddir trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru i adrodd mewn perthynas â thargedau a nodir yn y Fframwaith a'r Cynllun Cyflawni. Mae'r ffigyrau diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu bod canran uwch o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r rhyngwrwyd o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr holl oedolion, sef 83% o'i gymharu ag 81% (sylwer bod yr ystadegyn hwn yn seiliedig ar bobl 16+ oed). Mae swyddogion yn monitro ffynonellau data eraill a gyhoeddir sy'n gysylltiedig â lefelau'r defnydd o'r rhyngwrwyd/cynhwysiant digidol ledled y DU a Chymru gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac Ofcom. Roedd yr adroddiad diweddaraf ar y Farchnad Gyfathrebu gan Ofcom (sy'n seiliedig ar sampl lai o lawer nag Arolwg Cenedlaethol Cymru) yn dangos bod y rhai sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn llawer llai tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod â mynediad at y rhyngwrwyd gartref (76% o'i gymharu ag 86%). Mae hyn yn wahanol i'r ffigyrau diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru a geir uchod ac astudiaeth flaenorol a gwblhawyd gan ymchwilyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru a oedd yn dangos nad oedd cydberthynas arwyddocaol rhwng y Gymraeg a defnydd o'r rhyngwrwyd.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?	Cadarnhaol:	☒
	Negyddol:	☐
	Niwtral:	☐
	Anhysbys:	☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol	☒
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	☐
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	☐
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	☐

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg?
Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Amh.

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Amh.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a

godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?
Mae swyddogion wedi ymgynghori â chydweithwyr o Uned y Gymraeg a Cymunedau Digidol Cymru trwy gydol y broses o ddiweddarau'r Fframwaith. Mae cyfraniadau sy'n ymwneud â'r goblygiadau o ran y Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg sy'n mynd rhagddynt ledled Cymru wedi cael eu cynnwys a byddant yn cael eu monitro trwy'r Fframwaith Strategol.
Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?
Bydd swyddogion yn parhau i ddefnyddio data a gyhoeddir trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru ynghylch Defnydd o'r Rhyngwrdd, i adrodd mewn perthynas â thargedau a nodir yn y Fframwaith a'r Cynllun Cyflawni. Fodd bynnag, bydd swyddogion hefyd yn monitro ffynonellau data eraill a gyhoeddir sy'n gysylltiedig â lefelau'r defnydd o'r rhyngwrdd/cynhwysiant digidol ledled y DU a Chymru gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac Ofcom.
Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?
Fel a nodir uchod.
Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg
Amh.

4. Datganiad

Arweinydd polisi: <i>*Dileer fel y bo'n briodol:</i> *Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleodd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.
Enw:
Andrew Jacobs
Adran:
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad(au):

1 Mawrth 2016
Llofnod:
Andrew Jacobs
Dyddiadau adolygu:

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	
Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.	
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu